**HEFCW circular W23/12HE**
**Annex A**

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales
hefcw

# Strategaeth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru (CAYC) 2023/24 – 2027/28

| | |
|---|---|
| **Sefydliad:** | Prifysgol De Cymru |
| **Arweinydd Strategaeth CAYC** | Yr Athro Martin Steggall, Dirprwy Is-ganghellor Ymchwil ac Arloesi<br>Dr Louise Bright, Cyfarwyddwr Gweithredol Ymgysylltu a Menter |
| **E-bost:** | Martin.steggall@southwales.ac.uk<br>Louise.bright@southwales.ac.uk |

## Adran A: Trosolwg

### 1. Uchelgeisiau strategol

*Rhowch drosolwg o ddull pum mlynedd eich sefydliad o safbwynt cefnogi gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth a sut y caiff y rhain eu cefnogi gan CAYC. Efallai y byddwch am amlygu meysydd eang yr ydych yn eu targedu, a sut mae'r rhain yn cyd-fynd â'ch cenhadaeth sefydliadol a'ch strategaethau mewnol [Uchafswm o 250 gair]*

Mae Prifysgol De Cymru (PDC), gan gynnwys Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (CBCDC), yn gosod ymgysylltu, cydweithio a gweithio mewn partneriaeth wrth wraidd popeth a wnawn.

Rydym yn gweithio gyda diwydiant i fynd i'r afael â heriau byd-eang, o ynni ac iechyd i ddiogelwch a chynaliadwyedd, gan ddarparu atebion i broblemau'r byd go iawn. Trwy ein Strategaeth 2030, a themâu allweddol Effaith Ymchwil ac Arloesi a Ffocws Allanol, rydym yn sicrhau'r canlynol:

- Mae partneriaethau'n mynd i'r afael â heriau byd-eang ac yn gweithredu fel catalyddion ar gyfer dylanwad a chefnogaeth ehangach.
- Mae gwaith cydweithredol yn canolbwyntio ar greu lefelau uwch o gynhyrchiant, arloesedd ac effaith economaidd.
- Rydym yn gweithio mewn partneriaeth i ysbrydoli a chefnogi entrepreneuriaeth myfyrwyr.
- Rydym yn cefnogi, meithrin ac arddangos talent ac uchelgais ein hymchwil a'n harloesedd.
- Rydym yn meithrin perthnasoedd rhwng diwydiant a chymunedau trwy ymchwil ac arloesi sy'n seiliedig ar ymarfer.
- Rydym yn gwneud y mwyaf o werth economaidd a chyhoeddus ein campysau er budd ein partneriaid a'n cymunedau.

Drwy thema CAYC o Fasnacheiddio/Cynhyrchu Incwm a'n Strategaeth Ymchwil ac Arloesi, bydd meysydd strategol o ddatblygiad a buddsoddiad carlam yn ffocws i'n cyfnewid gwybodaeth ac effaith: Amgylchedd Cynaliadwy; Trosedd, Diogelwch a Chyfiawnder; Iechyd a Lles; Arloesi Creadigol.

Mae ein hymrwymiad i Les Economaidd a Chymdeithasol yn elfen allweddol o Gynllun Ymgysylltu PDC, gyda ffocws ar les y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu yn y dyfodol fel sefydliad cysylltiedig a chyfrifol. Mae hyn yn cyd-fynd â Chymorth Twf Busnes

a Sgiliau Newydd CAYC, a ffocws Cenhadaeth Ddinesig/Ymgysylltu â'r Cyhoedd, a gefnogir gan ein Cynghrair Strategol AB.

**2. Grant Capasiti**

*Rhowch rywfaint o naratif ar sut mae'ch sefydliad yn bwriadu defnyddio'r grant capasiti o £250k sydd wedi'i gynnwys yn CAYC. Sut bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i gefnogi a gwella gallu a chymell a gwella perfformiad wrth gyfnewid gwybodaeth? [Uchafswm o 250 gair]*

Drwy Strategaeth Arloesi 2020-2023 PDC, rydym wedi adeiladu tîm gwybodus ac arloesol o weithwyr proffesiynol cyfnewid gwybodaeth sy'n cael effaith ar draws pob un o'r tair elfen CAYC. Rydym yn bwriadu cadw'r tîm hwn lle bo'n bosibl er mwyn sicrhau bod eu harbenigedd a'u profiad yn parhau i fod o fewn y sefydliad. Mae'r tîm hwn yn ganolog i gefnogi pob agwedd ar weithgareddau Arloesi ac Ymgysylltu PDC, gan weithio ochr yn ochr â chydweithwyr i gyflenwi gwasanaethau cadarn.

Mae cymorth cynhwysfawr ar gyfer llywodraethu, rheoli prosiectau, datblygu busnes a masnacheiddio yn allweddol i'r twf mewn incwm prosiectau masnachol a chydweithredol. Cefnogir hyn gan rolau penodol mewn masnacheiddio/Eiddo Deallusol, datblygu busnes (DPP/Sgiliau), gwasanaethau cyfreithiol (sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu â diwydiant) a rheoli prosiectau arloesi strategol.

Mae canolbwynt busnes Cyfnewidfa PDC yn gartref i dîm Ymgysylltu profiadol, a ariennir yn rhannol gan CAYC, sy'n allweddol i ddarparu cymorth Twf Busnes a Sgiliau (ac wrth ddarparu'r cysylltiadau cydweithredol a'r piblinell ar gyfer gweithgarwch cynhyrchu incwm) - datblygu partneriaethau, hwyluso rhaglenni cyfnewid gwybodaeth, ac arddangos llwyddiant ymgysylltu. Mae'r tîm hefyd yn cynnwys adnodd Cenhadaeth Ddinesig bwrpasol, i arwain ar ddigwyddiadau a mentrau ymgysylltu dinesig allweddol. Bydd y tîm hwn yn sicrhau bod lefelau ymgysylltu allanol yn cael eu cynnal a bod twf yn cael ei gyflawni.

Bydd tîm Menter llwyddiannus PDC hefyd yn parhau i gael ei ariannu'n rhannol gan CAYC, drwy rolau menter a deorfa graddedigion sy'n cyd-fynd â Startup Stiwdio Sefydlu PDC, a chymorth i ymgysylltu a monitro entrepreneuriaid sy'n gyn-fyfyrwyr. Maent yn chwarae rhan ganolog yng nghyflawniad niferoedd uchel o fusnesau newydd graddedigion, yn ogystal â chefnogi ymwreiddio sgiliau entrepreneuriaeth yn y cwricwlwm.

**Adran B: Cynnwys penodol**

**3. Masnacheiddio / gweithgarwch cynhyrchu incwm**

*Nod CAYC yw darparu cymhelliant a gwobrwyo perfformiad, yn arbennig yn nhermau caffael incwm allanol. Rhowch fanylion sut y bydd CAYC yn cael ei ddefnyddio i alluogi eich sefydliad i dyfu ei incwm allanol fel y'i mesurir gan HE-BCI. Beth yw'r meysydd allweddol o fuddsoddiad a thwf? Sut bydd cyllid yn cael ei ddefnyddio i adeiladu ar fuddsoddiadau CAYC blaenorol? Pa weithgaredd newydd fydd yn cael ei gefnogi? Mae canllawiau pellach ar yr adran hon ar gael yng Nghylchlythyr W23/12HE. Dylai eich ymateb gael ei fframio yn nhermau effaith CAYC ar ffyniant cymdeithasol ac economaidd Cymru. [Uchafswm o 500 gair] Amlygwch ganolfannau rhagoriaeth ymchwil sydd eisoes yn gweithredu fel canolfannau arloesi.*

Mae ymrwymiad strategol PDC i Ragoriaeth Ymchwil ac Effaith Arloesi yn ffocws i strategaeth Ymchwil ac Arloesi (Y&A) newydd, sy'n cydgrynhoi ymchwil o fewn 15 Grŵp

Ymchwil ac Arloesi (GYA), a phedwar maes cryfder rhyngddisgyblaethol sy'n cyd-fynd â'n heriau cymdeithasol a byd-eang a nodau datblygu cynaliadwy: Amgylchedd Cynaliadwy; Trosedd, Diogelwch a Chyfiawnder; Iechyd a Lles; Diwydiannau Creadigol. Mae amcanion y strategaeth Y&A yn cynnwys targedau heriol ar gyfer cynhyrchu incwm a adlewyrchir yn ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol strategol. Mae ein gweithgareddau CAYC yn cefnogi hyn drwy'r meysydd GYA a Chyflymydd, gydag arweinyddiaeth gan Ddeon Cyswllt (Ymchwil ac Arloesi) ym mhob Cyfadran.

Mae ein Cronfa Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi (KEIF) yn cefnogi prosiectau mewnol sy'n dangos y potensial ar gyfer effaith a chynhyrchu incwm allanol trwy bartneriaethau gyda diwydiant, sefydliadau sector cyhoeddus a thrydydd sector, gyda ffocws ar yrwyr incwm HEBCIS. Byddwn yn adeiladu ar lwyddiant y 47 o brosiectau a ariannwyd gan CAYC i gefnogi ymchwil gydweithredol, ymchwil contract, ymgynghoriaeth, DPP masnachol a mynediad i gyfleusterau ac offer. Prosiectau enghreifftiol:

- **Llusern Scientific Ltd** - cwmni deillio yn seiliedig ar brawf cyflym a fforddiadwy datblygedig ar gyfer SARS-CoV-2.
- **Deunyddiau Newydd ar gyfer Storio Hydrogen** - datblygu deunyddiau storio hydrogen solet mewn cydweithrediad â chwmni o Ganada (Hydro Quebec).

Drwy ymgysylltu â Rhwydwaith Arloesi Cymru, a chysylltiadau agos â diwydiant, busnesau bach a chanolig, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, a phartneriaethau datblygu economaidd rhanbarthol allweddol megis Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, byddwn yn cydweithio i nodi, gwneud cais a sicrhau cyfleoedd ariannu sylweddol. Bydd y gweithgaredd hwn yn cael ei gefnogi gan KEIF lle bo modd ac yn canolbwyntio ar ffyniant economaidd a chymdeithasol. Rydym wedi cynnal adolygiad o Eiddo Deallusol (ED) a masnacheiddio gan gynnwys archwiliad allanol o eiddo deallusol ar draws y brifysgol, a byddwn yn gweithredu argymhellion ar ddatblygiad pellach ein portffolio eiddo deallusol a'r amgylchedd i gefnogi masnacheiddio eiddo deallusol. Rydym wedi sefydlu cronfa wedi'i thargedu ar gyfer masnacheiddio eiddo deallusol, cefnogi blwyddyn gyntaf diogelu eiddo deallusol a datblygu cynlluniau masnacheiddio.

Rydym wedi ymrwymo i agor ein campysau i bartneriaid allanol, a byddwn yn parhau i fasnacheiddio ein cyfleusterau technegol a'n hoffer gyda diwrnod agored blynyddol i'r diwydiant, monitro ein hasedau'n rheolaidd, ac ymgyrch hyrwyddo barhaus i arddangos ein hadnoddau gan gynnwys cyfleusterau CBCDC. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar incwm a gofnodwyd yn ein ffurflen Cyfarpar a Chyfleusterau HE-BCI a bydd yn cynyddu ein cydweithrediad a chyfnewid gwybodaeth gyda diwydiant.

Bydd ein harbenigedd academaidd cysylltiedig (gan gynnwys yn CBCDC) yn cael ei hyrwyddo ochr yn ochr â hyn ar ffurf ymgynghoriaeth, KTP a gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth eraill. Mae sgiliau hefyd yn allweddol i'n strategaeth, gydag ymrwymiad i ddatblygu cyfleoedd a modelau darparu DPP newydd, arloesol a hyblyg. Byddwn yn parhau i dyfu a datblygu ein darpariaeth DPP mewn sectorau allweddol, gan adeiladu ar raglenni blaenllaw a ariennir fel yr Academi Dysgu Dwys, a dulliau cyflwyno arloesol megis micro-gymhwysterau. Byddwn yn sicrhau bod ein darpariaeth DPP yn bodloni anghenion sgiliau rhanbarthol, trwy bortffolio eang ei gwmpas wedi'i ategu gan gymunedau ymarfer, cynadleddau a llwybrau at ddyfarniadau academaidd.

**3.1 Rhowch fanylion Dangosyddion Perfformiad Allweddol strategol eich sefydliad ar gyfer gweithgarwch masnacheiddio a chynhyrchu incwm:**

Cynnydd blynyddol o 10% mewn cynhyrchu incwm ar draws ffrydiau incwm allweddol (Ymchwil Cydweithredol/Contract, Ymgynghori, Offer a Chyfleusterau, DPP) wedi'i hwyluso gan:

- Cronfa Arloesi Cyfnewid Gwybodaeth i roi hwb i brosiectau masnacheiddio.
- Hyrwyddo Offer a Chyfleusterau at ddefnydd allanol.
- Ehangu'r portffolio DPP.
- Rhaglen Partneriaeth ac Ymgysylltu i gefnogi rhyngweithiadau cwmpasu cychwynnol gyda diwydiant.

## 4. Twf busnes newydd a chymorth sgiliau

*Amlinellwch y cymorth yr ydych yn bwriadu ei ddarparu ar gyfer busnesau newydd, cwmnïau deilliedig, a chwrdd â thargedau cynlluniau fel Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru. Darparwch wybodaeth ar ble y bydd CAYC yn ychwanegu gwerth at weithgareddau presennol, a lle mae'n caniatáu ichi fuddsoddi mewn twf pellach. Amlinellwch sut y bydd CAYC yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu diwylliant o entrepreneuriaeth ac arloesedd ar gyfer myfyrwyr, graddedigion ac aelodau staff. Mae canllawiau pellach ar yr adran hon ar gael yng Nghylchlythyr W23/12HE. Dylid fframio eich ymateb yn nhermau ffyniant cymdeithasol ac economaidd i Gymru. [Uchafswm o 500 gair].*

Cyfnewidfa PDC yw'r canolbwynt ar gyfer cydweithredu, cymorth busnes a chreu cysylltiadau â diwydiant ym Mhrifysgol De Cymru, gan ganolbwyntio ar ffyniant economaidd ac ymgysylltu â'r gymuned drwy ddarparu:

- Mynediad at arbenigedd a chyfleusterau o bob rhan o'r Brifysgol.
- Mynediad at gyllid i gwmpasu cydweithrediadau/partneriaethau newydd ag academyddion PDC.
- Cyfleoedd ar gyfer Cyfnewid Gwybodaeth ac Ymgysylltu â Diwydiant.
- Mannau ymgysylltu busnes pwrpasol i gefnogi cydweithredu.
- Rhestr lawn o ddigwyddiadau cymorth busnes.

Bydd Cyfnewidfa PDC yn defnyddio Rhaglen Partneriaeth ac Ymgysylltu llwyddiannus PDC i wella a thyfu cydweithrediad busnes cynaliadwy gyda PDC a hwyluso mynediad at arbenigedd. Bydd cymorth amrywiol i ddatblygu partneriaethau ystyrlon, ysgogi cyfleoedd masnachol yn y dyfodol, nodi cyfleoedd cydweithredol a mynd i'r afael ag anghenion sgiliau rhanbarthol. Bydd gweithgareddau ymgysylltu allanol y gyfadran yn cael eu harwain gan rolau Deon Cyswllt (Partneriaethau a Datblygu Busnes) penodedig, a fydd yn gweithio gyda'r tîm Cyfnewidfa trwy Fforwm Ymgysylltu i nodi cyfleoedd strategol ar gyfer cydweithio a datblygu partneriaeth. Bydd ein gweithgareddau ymgysylltu yn cael eu monitro drwy system CRM gynhwysfawr. Byddwn yn treialu cydleoli'r Gyfnewidfa ochr yn ochr â'n Startup Stiwdio Sefydlu ar Gampws Casnewydd i archwilio cyfleoedd i gysylltu busnesau newydd yn y cyfnod cynnar ag arbenigedd academaidd.

Yn 2022, ail-lofnododd PDC ei chynghrair strategol â phum coleg partner Addysg Bellach yn rhanbarth De-ddwyrain Cymru, gan ddangos gweledigaeth ac ymrwymiad i gydweithio i dyfu a chreu cyfleoedd ar gyfer dysgu, cyflogaeth a chynhwysiant cymdeithasol. Mae meysydd ffocws allweddol yn cynnwys blaenoriaethau sgiliau rhanbarthol, ymgysylltu â diwydiant ac ymchwil gymhwysol, gan gynnwys cymorth cydweithredol ar gyfer sectorau fel Ffilm a Theledu, gyda llif talent i swyddi lleol a chyfleoedd uwchsgilio (gan gynnwys prentisiaethau gradd). Byddwn yn cefnogi mentrau sy'n cynyddu cyfnewid gwybodaeth a rhannu arfer gorau ymchwil ac arloesi rhwng PDC a cholegau partner. Bydd hyn yn cynnwys Cynhadledd Ymchwil ac Arloesi AU/AB, sy'n dilyn digwyddiadau hynod lwyddiannus yn 2022 a 2023, a rhaglen fentora AU/AB. Byddwn yn canolbwyntio ar anghenion sector penodol trwy ddigwyddiadau AU/AB/Diwydiant wedi'u targedu a chwmpasu prosiectau cydweithredol yn ein hardaloedd Sbarduno.

Mae PDC wedi ymrwymo i wreiddio menter ac entrepreneuriaeth yn ein diwylliant a'n rhaglenni, gan ddatblygu sgiliau, cymorth a chyfleoedd i'n myfyrwyr, graddedigion, staff a chymunedau. Mae hyn yn galluogi arloesi, ac yn cefnogi busnesau i ddechrau, cynnal a thyfu, gan ddangos effaith sylweddol, a pharhau â blaenoriaethau rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid. Bydd adnodd menter yn meithrin gallu entrepreneuraidd a mentrus o fewn y cwricwlwm a thrwy gymorth allgyrsiol, gan gyflwyno elfennau rhaglen newydd o 'wreiddio' i fonitro ymyrraeth gwricwlaidd, a 'chynnal a thyfu' i gefnogi ac olrhain twf a goroesiad busnesau graddedigion. Bydd deorfa busnes Startup Stiwdio Sefydlu PDC yn sicrhau bod gofod busnes a thwf yn cael ei gynnal a'i wella fel rhan o'n cynnig entrepreneuriaeth, a bydd adnodd Cyn-fyfyrwyr yn arddangos llwyddiannau ein rhwydwaith entrepreneuriaid graddedig, gan helpu i fonitro a chysylltu ag entrepreneuriaid graddedig. Byddwn yn cydweithio â phartneriaid allanol i fynd i'r afael â heriau menter allweddol, er enghraifft cyflwyno'r rhaglen Datblygu Menywod mewn Entrepreneuriaeth gyda NatWest, a bydd Prifysgol De Cymru a CBCDC yn cydweithio i gynnig cymorth sy'n benodol i'r diwydiant i entrepreneuriaid creadigol.

## 4.1 Rhowch fanylion Dangosyddion Perfformiad Allweddol strategol eich sefydliad ar gyfer twf busnes newydd a chymorth sgiliau

**Ymgysylltu**

Bydd ein gweithgarwch ymgysylltu yn canolbwyntio ar Dwf Busnes Newydd, Cymorth Sgiliau, Cydweithrediad AU/AB a gweithgarwch Datblygu Partneriaeth, gyda thargedau blynyddol ar gyfer:

- 100 aelod newydd o'r Gyfnewidfa.
- 5 partneriaeth strategol newydd.
- 20 o gyfnewidfeydd arloesi gyda diwydiant drwy'r Rhaglen Partneriaeth ac Ymgysylltu.
- Rhaglen Cyfnewidfa PDC o ddigwyddiadau ymgysylltu â diwydiant.
- 5 digwyddiad cydweithredol AU/AB, gan gynnwys Cynhadledd Ymchwil ac Arloesi.
- 5 prosiect arloesi cydweithredol AU/AB/partneriaeth mentora.

**Menter ac Entrepreneuriaeth**

**Ymwreiddio**: 10 academydd yn cael eu cefnogi i ymwreiddio sgiliau menter ac entrepreneuriaeth yn y cwricwlwm gyda phartneriaid academaidd.
**Ymgysylltu**: 3000 o unigolion yn ymwybodol o gymorth Menter ac Entrepreneuriaeth.
**Grymuso**: 300 o unigolion yn cael gwybodaeth, gallu a sgiliau menter ac Entrepreneuriaeth.
**Cymhwyso:** 100 o unigolion yn cael eu cefnogi i ddechrau a datblygu busnesau trwy gymorth wedi'i deilwra: apwyntiadau un-i-un, profi masnachu, rhaglenni cychwyn busnes
**Cychwyn:** 50 o fyfyrwyr/graddedigion yn cychwyn busnes/gwasanaeth newydd. * Meini prawf heb eu halinio â HEBCIS
**Cynnal a Thyfu:** 10 busnes (o unrhyw strwythur ffurfiol) wedi'u cefnogi i fasnachu am dair blynedd a throsodd

## 5. Cenhadaeth Ddinesig ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd

*Amlinellwch sut y bydd CAYC yn cefnogi gweithgaredd parhaus neu newydd ar draws eich cymunedau. Mae cenhadaeth ddinesig seiliedig ar le yn eang, gan ymgorffori ystod eang o weithgareddau gan gynnwys cymorth yn y gymuned i ddiwallu anghenion sgiliau diwydiant, partneriaethau AU-AB mewn sgiliau, arloesi ac ymgysylltu, ymgysylltu â'r cyhoedd trwy ymchwil, a helpu i fynd i'r afael â heriau cymdeithasol. Byddai cefnogaeth i'r gymuned o fewn adeiladau'r brifysgol ar gyfer er enghraifft digwyddiadau, darlithoedd ac ati hefyd yn fodd o gefnogi cenhadaeth ddinesig. Mae canllawiau pellach ar yr adran hon*

*ar gael yng Nghylchlythyr W23/12HE. Dylai eich ymateb gael ei fframio o ran ffyniant cymdeithasol ac economaidd i Gymru. [Uchafswm o 500 gair]*

Mae PDC wedi ymrwymo i wella llesiant y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu yn y dyfodol, drwy gymryd camau unigol a chyfunol ar draws ein rhanbarth, gan gynnwys cefnogi nodau llesiant Llywodraeth Cymru. Mae ein Gweledigaeth 2030 yn rhoi pwyslais ar gynhwysiant, hyrwyddo mynediad a chyfranogiad mewn addysg uwch, a gwell cymorth i gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol. Byddwn yn blaenoriaethu tair thema allweddol:

**Dinasyddiaeth Weithgar:**
Gan adeiladu ar ein Cronfa Gweithgarwch Dinesig llwyddiannus, byddwn yn cynnal galwad flynyddol am brosiectau sy'n gweithredu fel pont ar gyfer cyfnewid gwybodaeth rhwng ein harbenigedd a diddordebau ymchwil cymunedol. Bydd hyn yn galluogi ymgysylltu â'r cyhoedd trwy ymchwil (PER), a ddangosir trwy astudiaethau achos. Byddwn yn hyrwyddo ac yn monitro cyfleoedd gwirfoddoli mewn partneriaeth ag asiantaethau lleol i hybu dinasyddiaeth weithgar ymhlith staff PDC trwy gynllun Gwirfoddoli Dinesig i Staff. Bydd hyn yn ategu mentrau gwirfoddoli myfyrwyr fel ein ffeiriau gwirfoddoli Mae Profiad Gwaith o Werth.

**Cydweithio ar sail Lle:**
Byddwn yn adeiladu rhwydweithiau cefnogol, ymddiriedus a phroffesiynol gydag arweinwyr dinesig, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC), Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a Rhwydwaith Cenhadaeth Ddinesig Cymru i wneud y gorau o newid a chanlyniadau cadarnhaol ar gyfer ein rhanbarth. Bydd prosiectau allgymorth gan gynnwys y Ganolfan Ecsbloetio Ddigidol Genedlaethol a phrosiectau Ysgolion Seiber yn Gyntaf yn cynyddu hygyrchedd a chyfranogiad mewn Addysg Uwch, gan godi dyheadau dysgwyr a mynd i'r afael â bylchau sgiliau. Bydd ein Menter Menywod mewn STEM Cymru yn darparu cymorth drwy gyfres o ymyriadau gan gynnwys Cynllun Mentora, a chyfres 'Podlediad ar gyfer Hyder' i gefnogi menywod i fod yn gyfathrebwyr mwy hyderus.

Mae Partneriaeth Ymgysylltu Dinesig De Cymru (SWCEP) yn dangos ymagwedd AU/AB cydweithredol at genhadaeth ddinesig yn Ne-ddwyrain Cymru, a fydd yn cael ei chynnal trwy ddigwyddiadau a chyfres o gyhoeddiadau 'Cenhadaeth Ddinesig yng Nghymru'.

Bydd prosiectau sy'n seiliedig ar leoedd yn ysgogi newid cadarnhaol, gan gynnwys menter a arweinir gan PDC, Busnes yn y Gymuned, Cyngor Dinas Casnewydd, partneriaid diwydiant ac aelodau'r gymuned, i fynd i'r afael â heriau economaidd-gymdeithasol Casnewydd gan gynnwys costau byw; iechyd a lles; sgiliau ar gyfer y dyfodol. Mae Iechyd a Lles hefyd yn ffocws i brosiect 'Rhanbarth Marmot Gwent: Gwent Decach', y bydd PDC yn ei gefnogi mewn partneriaeth â BGC Gwent a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan/Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan gefnogi cymunedau i fyw bywydau iach, bodlon.

**Ymgysylltu â'r Cyhoedd:**
Yn 2023 comisiynodd PDC adolygiadau i'w Hymgysylltu â'r Cyhoedd a Pholisi a bydd argymhellion yr adolygiad yn cael eu hystyried a'u gweithredu fel y bo'n briodol. Er mwyn gwella ein Hymgysylltu â'r Cyhoedd, byddwn yn darparu rhaglen o ddigwyddiadau cyhoeddus hygyrch a chynhwysol ar gyfer ein cymuned, gan gynnwys: Ein digwyddiadau ar-lein 'Materion Yfory' sy'n darparu mewnwelediadau arbenigol o feysydd eiriolaeth, busnes, llunio polisïau a diplomyddiaeth i fynd i'r afael â heriau byd-eang allweddol; Ein Gwobrau Effaith ac Arloesi a gynhelir bob dwy flynedd, sy'n dathlu gweithgarwch ymchwil, arloesi ac ymgysylltu sy'n cael effaith ar gymdeithas; Gŵyl amlgyfrwng flynyddol 'Trochi!' PDC, wedi'i churadu gan fyfyrwyr PDC mewn partneriaeth â'r gymuned leol, a ddaeth yn rhan o Ŵyl 6 Music yn 2023.

Bydd CBCDC yn datblygu ei gyfnod preswyl yn yr Hen Lyfrgell yng nghanol Caerdydd, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddulliau arloesol a chyd-greu ffurfiau o ymgysylltu â'r cyhoedd a chyfranogiad yn y celfyddydau perfformio, yn ogystal ag archwilio potensial y lleoliad hwn ar gyfer cynhyrchu incwm masnachol.

**5.1 Rhowch fanylion Dangosyddion Perfformiad Allweddol strategol eich sefydliad ar gyfer cenhadaeth ddinesig ac ymgysylltu â'r cyhoedd**

Bydd ein tri piler o Ddinasyddiaeth Weithgar; Cydweithio ar Sail Lle; ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd yn cael ei fesur gan:

- 10 grant Cronfa Gweithgarwch Dinesig yn cael eu dyfarnu'n flynyddol.
- 20 o staff yn defnyddio'r cynllun Gwirfoddoli Dinesig y flwyddyn.
- Ymgysylltu strategol â Rhwydweithiau AU/AB Dinesig cydweithredol (e.e. Rhwydwaith Cenhadaeth Ddinesig Cymru a Phartneriaeth Ymgysylltu Dinesig De Cymru).
- Cydweithio strategol gyda mentrau cymunedol Gwent/Casnewydd (e.e. Rhanbarth Marmot a rhaglen Lleoedd BITC).
- Rhaglen flynyddol o ddigwyddiadau Ymgysylltu â'r Cyhoedd gan gynnwys darlithoedd cyhoeddus Materion Yfory, Menywod mewn STEM, Gwyliau Creadigol a Chynyrchiadau.
- Gwobrau Effaith ac Arloesi bob dwy flynedd

**Adran C: Alinio â pholisi a blaenoriaethau**

**6. Alinio â Pholisi Cymru a'r DU**

*Disgrifiwch sut mae eich strategaeth CAYC yn cyd-fynd â pholisïau rhanbarthol, Cymreig, a'r DU perthnasol sy'n seiliedig ar le megis e.e. dinas-ranbarth leol / bargeinion twf rhanbarthol. (Gweler Cylchlythyr W23/12HE, paragraff 30) [Uchafswm o 500 gair]*

Mae pileri Gweledigaeth Ymchwil ac Arloesi CCAUC sef Rhagoriaeth, Lle, Arloesi a Chydweithio yn ganolog i'n Strategaeth Arloesi, a cheir tystiolaeth o hyn trwy ein hymrwymiad strategol i: Effaith Ymchwil ac Arloesi wedi'i halinio â'n meysydd rhagoriaeth, wedi'i llywio drwy ein cyfnewid gwybodaeth sy'n canolbwyntio ar atebion; a'n Ffocws Allanol ar les economaidd a chymdeithasol ar gyfer y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, wedi'i ddarparu mewn partneriaeth ac yn canolbwyntio ar hygyrchedd. Mae hyn yn cyd-fynd â'r newid i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, a'n hymrwymiad i egwyddorion y Concordat Cyfnewid Gwybodaeth.

Mae ein Strategaeth Arloesi yn cyd-fynd â ***Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, y Pum Blaenoriaeth ar gyfer Ymchwil, Datblygu ac Arloesi***, ac yn benodol themâu allweddol ***Strategaeth Arloesi Cymru***:

Gwell Addysg ac Economi Cryfach:

- Sgiliau sy'n diwallu anghenion cyflogwyr - o weithgareddau dinesig sy'n gysylltiedig ag allgymorth/ymgysylltu STEM, i uwchsgilio yn y gweithle a chydweithio ag AB.
- Ymchwilio i fasnacheiddio trwy brosiectau diwydiant sy'n cael effaith ac sy'n darparu atebion arloesol.
- Dulliau cydweithredol o gefnogi busnes, datblygu cynhyrchion a gwasanaethau newydd, a nodi cyfleoedd ar gyfer arloesi.

Arloesi Iechyd a'n Planed

- Ymrwymiad i Arloesi Iechyd a'n Planed trwy Ymchwil, Arloesi a Sgiliau mewn Amgylchedd Cynaliadwy ac Iechyd a Lles, gan gynnwys ymchwil hydrogen a dysgu efelychiadol, a phartneriaethau cryf sy'n sicrhau effaith.
- Rhaglenni sy'n chwalu rhwystrau i arloesi digidol ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau cyhoeddus ehangach ac yn creu cyfleoedd i rannu arfer gorau a thrawsnewid sefydliadol.
- Mynediad at ein hoffer, cyfleusterau ac arbenigedd blaengar, i ddangos arferion arloesol a chynnull rhanddeiliaid allweddol i fynd i'r afael â heriau arloesi.

Mae ein hymrwymiad i'n rhanbarth yn cael ei lywio gan ***Gynllun Economaidd a Diwydiannol Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd***, a'r bartneriaeth allweddol rhwng y byd academaidd, busnes, y sector cyhoeddus a chymunedau i ddarparu rhanbarth Cystadleuol, Cysylltiedig a Gwydn. Rydym yn cydnabod ein sefyllfa unigryw, gyda champysau yng Nghasnewydd, Caerdydd a Phontypridd, ac yn defnyddio dull seiliedig ar le i sicrhau cyrhaeddiad daearyddol i fynd i'r afael ag anghyfartaledd economaidd a hybu twf. Mae ein cymorth menter/dechrau busnes ar draws y tri champws yn allweddol, yn ogystal â'n hymyriadau sgiliau a'n gweithgarwch cenhadaeth ddinesig eang – gyda ffocws cynyddol ar amrywiaeth a chynhwysiant. Rydym wedi ymrwymo i wella gallu a chapasiti arloesi ac wedi canolbwyntio ar glystyrau diwydiannol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd allweddol (gan gynnwys diwydiannau creadigol, seiberddiogelwch, lled-ddargludyddion cyfansawdd – gyda thrawsnewid digidol yn thema drawsbynciol). Trwy ein sbardun amgylchedd cynaliadwy, byddwn yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o drawsnewid y systemau ynni yn y rhanbarth,

Mae strategaeth arloesi PDC yn cyd-fynd â pholisi'r DU cyfan drwy ***Strategaeth Arloesi y DU, Strategaeth UKRI a Fframwaith Gwyddoniaeth a Thechnoleg***. Mae themâu Strategaeth Arloesi y DU sef Rhyddhau Busnes; Pobl; Sefydliadau a Lleoedd; a Chenadaethau a Thechnolegau yn cysylltu â'n blaenoriaethau ar gyfer Twf Busnes a Masnacheiddio, a gefnogir drwy fentrau Ymchwil a Datblygu cydweithredol yng Nghymru drwy Rwydwaith Arloesi Cymru a ledled y DU drwy Gynghrair y Prifysgolion. Mae ein gweithgaredd entrepreneuriaid/cymorth busnes yn ganolog i hyn ynghyd â rhaglenni sgiliau, ffocws ar leoedd a thrawsnewid technolegol. Rydym yn blaenoriaethu effaith a phartneriaeth i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â heriau byd-eang ac yn galluogi newid cadarnhaol, gan gefnogi a grymuso ein pobl dalentog i arloesi ac ymgysylltu'n allanol.

## 7. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

*Rhowch wybodaeth benodol ar sut y bydd strategaeth CAYC yn cefnogi'r saith nod, a'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015;*
*[U*chafswm o 250 *gair]*

Mae PDC yn cydnabod y ddyletswydd sydd ganddi o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, ac ystyried anghenion pobl nawr ac yn y dyfodol.

Mae ein Strategaeth Arloesi yn cyd-fynd â nodau llesiant Ffyniant, Gwydnwch, Cyfrifoldeb Byd-eang a Chydraddoldeb – yn arbennig drwy ddarparu ein cronfa Cyfnewidfa Gwybodaeth ac Arloesi, Cymorth Busnes drwy Gyfnewidfa PDC, gweithgareddau Cydweithredol a Phartneriaeth, a chanolbwyntio ar Entrepreneuriaeth. Byddwn yn datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig ac yn canolbwyntio ar gyfnewid gwybodaeth sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd. Byddwn yn gweithio gyda chwmnïau mewn sectorau allweddol a'r rhai sydd â'r angen mwyaf (gan gynnwys entrepreneuriaid a microfusnesau) i gefnogi twf mewn ffordd effeithlon a chynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys

darparu cymorth i alluogi cwmnïau a'u gweithwyr i ddatblygu a thyfu, waeth beth fo'u cefndir neu sefyllfa, ac i wella enw da, cynhyrchu incwm ac effaith gadarnhaol y Brifysgol ar Gymru.

Bydd ein cenhadaeth ddinesig eang a'n gweithgareddau ymgysylltu cymunedol yn cefnogi Cymru Fwy Cyfartal, Cymru o Gymunedau Cydlynus, a'n Diwylliant Bywiog. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni arloesol fel Menywod Cymru mewn STEM, ein hymrwymiad i rwydwaith Prifysgolion Dinesig yng Nghymru a'n ffocws ar ymgysylltu cymunedol seiliedig ar leoedd – gyda ffocws ar amrywiaeth a chynhwysiant. Trwy ein darpariaeth sgiliau, yn enwedig gyda'r GIG a'r sector Gofal Cymdeithasol, a'n hymchwil a chyfnewid gwybodaeth, byddwn yn helpu i gyflawni Cymru Iachach. Bydd yr holl weithgarwch Arloesi yn cael ei oruchwylio i sicrhau ei fod yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## 8. Effaith ar y Gymraeg

*Amlinellwch yr effaith gadarnhaol y bydd buddsoddiad CAYC yn ei chael ar gyfleoedd i ddefnyddio a chefnogi'r Gymraeg. Lle bo'n briodol efallai yr hoffech gyfeirio at y themâu yng nghynllun gweithredu Cymraeg 2050. [Uchafswm o 250 gair]*

Bydd ein Strategaeth Arloesi yn cael ei monitro i sicrhau effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, a chydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg. Byddwn yn adolygu ein cyfraniad at gynllun gweithredu Cymraeg 2050 yn rheolaidd ar draws ein gweithgareddau Arloesi gan gynnwys menter, datblygu economaidd/twf busnes, cenhadaeth ddinesig a ffrydiau gwaith masnacheiddio. Bydd hyn yn canolbwyntio ar y tair thema allweddol:

- Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.
- Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.
- Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun.

Rhoddir ystyriaeth i ddarpariaeth sgiliau, defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg, a'r effaith ar gymunedau Cymraeg. Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau allweddol i wneud y mwyaf o gyfleoedd cydweithredol sy'n cael effaith ar y Gymraeg, gan wneud y mwyaf o fudd digwyddiadau allweddol megis Eisteddfod 2024 a gynhelir yn Rhondda Cynon Taf.

Lle bo angen byddwn yn ceisio mewnbwn gan Yr Uned Gymraeg PDC sy'n gyfrifol am weithredu a monitro cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg. Mae holl staff PDC yn mynychu hyfforddiant gorfodol Ymwybyddiaeth o Safonau'r Gymraeg, a thrwy learnwelsh.cymru mae Prifysgol De Cymru yn darparu cyrsiau Cymraeg i staff a myfyrwyr, ar-lein ac yn bersonol.

## Adran D: Defnyddio Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru

*Sut mae eich dyraniad CAYC 2023/24 yn cael ei ddefnyddio i gyflawni'r strategaeth a nodir yn Adran B, a beth yw eich blaenoriaethau disgwyliedig ar gyfer defnyddio cronfeydd CAYC yn y dyfodol? [Uchafswm o 250 gair – neu atodwch dabl yn amlinellu meysydd buddsoddi eang]*

Dangosir gwariant dangosol a ragwelir isod. Er eglurder, mae gwariant wedi'i ddyrannu yn erbyn un o dri maes blaenoriaeth CAYC, ond dylid nodi y bydd llawer o'r cyllid yn cael effaith ar draws pob un o'r tri maes blaenoriaeth.

| |
|---|
| **Gweithgarwch Masnacheiddio a Chynhyrchu Incwm: £535K** (23/24)<br>• Cronfa Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi<br>• Swyddog Cronfa Masnacheiddio / Eiddo Deallusol a Phrosiect<br>• Prosiect Cyfleusterau Technegol<br>• Llywodraethu/Cymorth Cyfreithiol<br>• Rheoli Prosiectau Strategol (prosiectau a ariennir yn allanol)<br>• Datblygu busnes (DPP)<br><br>**Cymorth Twf Busnes a Sgiliau: £447K** (23/24)<br>• Rheolwyr Ymgysylltu a Swyddog Cyfnewidfa<br>• Marchnata a Digwyddiadau Cyfnewidfa PDC<br>• Cronfa ymgysylltu (gan gynnwys ymgysylltu ag AB)<br>• Datblygiad CRM<br>• Adnodd Deorfa Menter a Graddedigion<br><br>**Cenhadaeth Ddinesig ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd: £131K** (23/24)<br>• Swyddog Cenhadaeth Ddinesig<br>• Digwyddiadau dinesig a gwobrau Effaith<br>• Prosiect seiliedig ar le Casnewydd ac ymgysylltu â'r gymuned |

| **Adran E:**<br>**Gofynion Rheoleiddiol**<br>*DS: Gall CCAUC ofyn am ragor o wybodaeth / eglurhad ar unrhyw un o'r meysydd hyn* | |
|---|---|
| i) Safonau'r Gymraeg (2018)<br>*[Defnyddiwch y gwymplen]* | Mae'r strategaeth hon yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg 2018 |
| ii) Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb<br>*[Defnyddiwch y gwymplen]* | Mae'r strategaeth hon wedi cael Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb |
| iii) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)<br>*[Defnyddiwch y gwymplen]* | Bydd y strategaeth hon yn cyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 |
| **Yr wyf yn cadarnhau bod y Brifysgol wedi ymrwymo i egwyddorion y Concordat Cyfnewid Gwybodaeth a'i bod yn gwbl ymrwymedig i'w wyth egwyddor arweiniol.** | |
| **Llofnod:**<br>**Is-Ganghellor** | |
| **Dyddiad:** | 27/06/2023 |